

# **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gwaith Dilydol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd**

Awst 2023

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi'r adroddiad hwn o dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac yn unol ag adran 145 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Fe wnaed y gwaith ar y cyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn arolygu gwasanaethau, ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn ystod

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog. [gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys

---

<b>Cyflwyniad a chefnidir</b>	<b>4</b>
<b>Canfyddiadau allweddol</b>	<b>7</b>
<b>Canfyddiadau manwl</b>	<b>14</b>
<b>Atodiad 1 – Methodoleg yr adolygiad</b>	<b>33</b>

# Cyflwyniad a chefnidir

---

- 1 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac ysbyty ar gyfer poblogaethau Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, a Phen-y-bont ar Ogwr.
- 2 Ym mis Tachwedd 2019, fe gynhaliom ni adolygiad ar y cyd o'r trefniadau llywodraethu ansawdd a rheoli risg yn y Bwrdd Iechyd<sup>1</sup>. Fe wnaed y gwaith hwn yn dilyn cyhoeddi adroddiad gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd a nododd bryderon difrifol a methiannau mewn gwasanaethau, sef y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Roedd adroddiad y Colegau Brenhinol yn rhoi ffocws manwl ar y pryderon yr oeddem ni wedi'u mynegi'n flaenorol ynghylch trefniadau llywodraethu ansawdd a rheoli risg y Bwrdd Iechyd.
- 3 O ganlyniad i adroddiad y Colegau Brenhinol, ym mis Ebrill 2019, rhoddwyd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y Bwrdd Iechyd mewn 'mesurau arbennig' a chafodd y sefydliad ei ddwysáu i statws 'ymyrraeth wedi'i thargedu' o fewn fframwaith dwysáu ac ymyrryd GIG Cymru<sup>2</sup>. Sefydlwyd Panel Goruchwyllo Gwasanaethau Mamolaeth Annibynnol (IMSOP - Independent Maternity Services Oversight Panel) hefyd gan Lywodraeth Cymru i roi her a chymorth i'r Bwrdd Iechyd wrth iddo geisio gwella'r gwasanaethau hyn.

---

1 [Adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg \(2019\)](#)

2 [Trefniadau Dwysáu ac Ymyrryd y GIG](#)

- 4 Nododd ein hadolygiad ar y cyd yn 2019 nifer o wendidau sylfaenol yn nhrefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd o ran ansawdd gofal a diogelwch cleifion. Fe wnaethom gyfanswm o 14 argymhelliad i gefnogi gwelliannau yn y meysydd canlynol:
- ffocws strategol ar ansawdd, diogelwch cleifion a risg;
  - arweinyddiaeth ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion;
  - craffu sefydliadol ar ansawdd a diogelwch cleifion;
  - trefniadau cyfarwyddiaethau ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion;
  - trefniadau rheoli risg;
  - rheoli pryderon; a
  - diwylliant a dysgu sefydliadol.

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd y canfyddiadau'n llawn a dechreuodd ymateb i argymhellion yr adroddiad.

- 5 Ym mis Mai 2021, fe gynhaliom ni adolygiad dilydol<sup>3</sup> ar y cyd a ddaeth i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn 2019, yn enwedig wrth ystyried yr heriau yr oedd yn eu hwynebu mewn ymateb i bandemig COVID-19. Fe wnaethom hefyd nodi ymrwymiad, ysgogiad a brwdfrydedd sylweddol gan y Bwrdd Iechyd, ac awydd clir i gael pethau'n iawn. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd a wnaed, roeddem yn teimlo bod angen gwaith o hyd ym mhob maes lle gwnaed argymhellion. O ganlyniad, fe gytunom ni y byddai pob un o'r 14 argymhelliad yn parhau ar agor.

---

3 Trosolwg o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion (2021)

## 6 Ers ein hadolygiad diwethaf, bu nifer o ddatblygiadau a newidiadau:

- Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y penderfyniad i ddad-ddwysáu gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol o ‘fesurau arbennig’ i ‘ymyrraeth wedi’i thargedu’ yn seiliedig ar asesiad IMSOP o gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran cyflawni’r gwelliannau gofynnol. Cafodd IMSOP ei ddiddymu gan y Gweinidog ar ddiwedd 2022.
- Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol benodiad Cadeirydd newydd, y dechreuodd ei gyfnod yn y swydd ym mis Ebrill 2023<sup>4</sup>.
- Mae’r Bwrdd Iechyd wedi sefydlogi ei uwch dîm arwain trwy benodi Cyfarwyddwr Gweithredol parhaol ar gyfer Therapiau a Gwyddorau Iechyd; Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid; a’r Phrif Swyddog Gweithredu. Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wedi creu dwy rôl Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu newydd – y naill ar gyfer gwasanaethau aciwt a’r llall ar gyfer gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl.
- Ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd y Bwrdd gynnig i greu model gweithredu newydd gyda’r nod o gefnogi adferiad ar ôl y pandemig; gwella ansawdd gwasanaethau; symleiddio trefniadau rheoli; a hwyluso cydweithio ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd Cam 1 y broses o roi’r model gweithredu newydd ar waith yn golygu disodli strwythur y Grwpiau Ardal Integredig (ILG - Integrated Locality Groups) â Grwpiau Gofal newydd ar draws y Bwrdd Iechyd<sup>5</sup>. Cwblhawyd Cam 1 ym mis Tachwedd 2022. Mae Cam 2, a oedd ar y gweill ar adeg ein gwaith, yn cynnwys sefydlu a gweithredu haen Grŵp Gwasanaeth Clinigol y Bwrdd Iechyd. Mae’r Bwrdd Iechyd yn anelu at gwblhau Cam 2 erbyn mis Medi 2023.

7 O ystyried natur y pryderon a nodwyd gan ein hadolygiad ar y cyd yn 2019, ein hasesiad o sefyllfa’r Bwrdd Iechyd yn erbyn yr argymhellion ym mis Mai 2021, a’r newidiadau a amlinellir uchod, fe wnaethom benderfynu cynnal adolygiad dilydol pellach, a ddechreuodd ym mis Mawrth 2023.

8 Rydym yn cyflwyno canfyddiadau ein hadolygiad dilydol yn yr adroddiad hwn, ynghyd â’n hasesiad o sefyllfa’r Bwrdd Iechyd yn erbyn yr 14 argymhelliad a wnaethom yn ein hadroddiad yn 2019. Mae’r dull a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi’i nodi yn **Atodiad 1**.

---

4 <https://www.llyw.cymru/penodi-cadeirydd-newydd-i-fwrdd-iechyd-prifysgol-cwm-taf-morgannwg>

5 Mae chwe grŵp gofal i gyd: Grŵp Gofal wedi’i Gynllunio; Grŵp Gofal Heb Ei Drefnu; Grŵp Gofal Plant a Theuluoedd; Grŵp Gofal Diagnosteg, Therapiau ac Arbenigeddau; Grŵp Gofal Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu; a’r Grŵp Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

# Canfyddiadau allweddol

---

- 9 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â'r pryderon sylweddol a'r argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiad yn 2019.
- 10 Fel rhan o'n gwaith, fe wnaethom adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer goruchwyllo'r broses o roi'r argymhellion a wnaed gennym yn 2019 ar waith a chyflawni'r gwelliannau gofynnol i wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Canfuom fod trefniadau'r Bwrdd Iechyd yn effeithiol ac yn dryloyw. Mae Uwch Swyddogion Gweithredol ac Aelodau Annibynnol wedi chwarae rhan lawn, gan ddarparu cydbwysedd da o gymorth, craffu a herio. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sicrhau bod staff a rhanddeiliaid eraill wedi cael gwybod mewn modd briodol am gynnydd a hynny'n barhaus.
- 11 Mae gan y Bwrdd Iechyd ffocws strategol cryfach ar ansawdd a diogelwch cleifion o'i gymharu â 2019. Mae Strategaeth Ansawdd tair blynedd newydd y Bwrdd Iechyd yn mynegi'n glir beth yw gweledigaeth, cenhadaeth, adduned, uchelgeisiau a nodau ansawdd y sefydliad. Mae hefyd yn nodi'n glir sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin ag ansawdd, yn ogystal â sut y bydd llwyddiant yn edrych. Mae'r strategaeth, ynghyd â'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion tair blynedd newydd, yn darparu sylfaen dda i gefnogi'r gwaith i gyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd<sup>6</sup> a'r Ddyletswydd Gonestrwydd<sup>7</sup> newydd, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2023. Ar adeg ein gwaith, roedd y Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu Cynllun Gwaith Ansawdd Blyneddol i nodi'r amcanion ansawdd i roi cymorth i gyflawni'r strategaeth. Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, rhaid i waith i gwblhau'r cynllun yn gyflym barhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod timau corfforaethol a gweithrediadol yn deall eu rôl yn llawn ar gyfer gwireddu uchelgeisiau a chyrraedd nodau'r sefydliad ar gyfer ansawdd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd roi trefniadau cadarn ar waith i fonitro'r modd y cyflawnir y cynllun a'r strategaeth i sicrhau eu bod yn gwella deilliannau ansawdd fel a fwriadwyd.

---

6 [Y Ddyletswydd Ansawdd mewn Gofal Iechyd](#)

7 [Dyletswydd Gonestrwydd y GIG](#)

- 12 Mae mwy o eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau, atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion o'i gymharu ag yn 2019. Ar lefel weithredol, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth, a Gofal Cleifion; y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol; y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd; a Chyfarwyddwr Gweithredol dros dro Iechyd y Cyhoedd yn rhannu cyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch cleifion. Mae hwn yn welliant sylweddol o'i gymharu â 2019, pan oedd y cyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch cleifion yn nwylo'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion yn unig. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cynyddu ei gapasiti'n sylweddol i gefnogi ei drefniadau ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion, gyda sawl rôl newydd wedi'u sefydlu ar lefel gorfforaethol a gweithrediadol. Ar lefel weithrediadol, mae model llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion y Grwpiau Gofal newydd wedi'i nodi'n glir yn y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion tair blynedd. Roedd y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran gwreiddio'r model llywodraethu newydd ar adeg ein gwaith. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith, yn enwedig o ran gwreiddio rolau'r Cyfarwyddwyr Clinigol i sicrhau cyfrifoldeb cyfunol llawn am ansawdd a diogelwch ar lefel weithrediadol.
- 13 Mae'r gwaith craffu sefydliadol ar ansawdd a diogelwch cleifion wedi gwella'n sylweddol, gyda mwy o fod yn agored a thryloyw o'i gymharu â 2019. Mae Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd yn gweithredu'n effeithiol. Mae ansawdd y papurau a gaiff eu paratoi ar gyfer y pwyllgor wedi gwella, ac fe arsylwom ni ar Aelodau Annibynnol yn darparu cydbwysedd da o gymorth, craffu a herio. Dywedodd Aelodau Annibynnol wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael mwy o gymorth i gyflawni eu rolau a bod ganddynt fynediad da at gyfleoedd dysgu a datblygu. Mae mwy o graffu hefyd ar Raglen Archwilio Clinigol y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu trefniadau newydd i oruchwylio ar faterion ansawdd a diogelwch cleifion, craffu arnynt a'u huwchgyfeirio ar lefel weithrediadol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu grwpiau newydd, fel y Bwrdd Rheoli Gweithrediadol a'r Bwrdd Gwella Gofal. Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol ac yn welliant amlwg o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2019, mae gan y Bwrdd Iechyd fwy i'w wneud o hyd i sicrhau bod y trefniadau wedi'u gwreiddio'n llawn ac yn gweithredu'n effeithiol fel a fwriadwyd ar draws y strwythur Grwpiau Gofal newydd.



- 14 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau rheoli risg yn sylweddol ers 2019. Mae mwy o ymwybyddiaeth o reoli risg ar draws y sefydliad, a phrosesau cliriach ar waith ar gyfer adnabod, rheoli ac uwchgyfeirio risgiau. Mae gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cymeradwy, sy'n gweithredu'n dda. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, sy'n cael ei adolygu'n weithredol ym mhob un o gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd, yn nodi'n glir beth yw'r risgiau strategol / prif risgiau i gyrraedd nodau strategol y Bwrdd Iechyd ac yn darparu gwybodaeth dda am fylchau mewn rheolaethau a sicrwydd, yn ogystal â chamau lliniarol. Tanategir Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gan strategaeth rheoli risg gynhwysfawr a chyfres o bolisiau a gweithdrefnau rheoli risg, sydd wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r model gweithredu newydd. Mae'r gofrestr risgiau sefydliadol (gorfforaethol) hefyd wedi'i cael ei chryfhau, ac mae tystiolaeth dda bod risgiau corfforaethol yn cael eu hadolygu a'u rheoli'n weithredol. Mae DATIX wedi'i wreiddio'n dda ar draws y Bwrdd Iechyd, gyda threfniadau goruchwyllo a llywodraethu gwell ar waith. Mae risgiau gweithrediadol wedi cael eu trosglwyddo o gofrestrau risgiau'r model gweithredu blaenorol (ILG) i gofrestrau risgiau'r Grwpiau Gofal newydd, ac mae'r Bwrdd Rheoli Gweithrediadol yn dechrau darparu goruchwyliaeth dda ar risgiau ar draws y strwythur newydd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau cynnwys cofrestrau risgiau'r Grwpiau Gofal, yn enwedig o ran nodi camau lliniarol.
- 15 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei ddull o reoli pryderon a chwynion ers 2019. Mae'r broses pryderon a chwynion yn glir, ac mae rolau corfforaethol newydd wedi cael eu creu i roi cymorth i weithredu'r broses a sicrhau cysondeb. Er bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i sicrhau bod yr holl staff clinigol a rheoli perthnasol yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o fynd ati'n rhagweithiol i adnabod materion ansawdd gweithrediadol a diogelwch cleifion ac ymdrin â hwy. Ceir hefyd ddiwylliant dysgu gwell o fewn y Bwrdd Iechyd, gydag ystod o drefniadau bellach ar waith i roi cymorth i adnabod a rhannu gwersi a ffyrdd o wella. Mae'n ymddangos hefyd bod y strwythurau a'r grwpiau newydd a sefydlwyd o dan y model gweithredu newydd yn creu gwell cyfleoedd ar gyfer rhannu gwersi a ffyrdd o wella ar lefel weithrediadol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth bryderon sylweddol gan ei fod wedi methu â chyflwyno nifer o Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau (LFERs - Learning From Events Reports) o fewn yr amserlenni gorfodol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r sefyllfa fel mater o frys, a gwella'i brosesau i sicrhau bod Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau yn cael eu cyflwyno'n fwy amserol yn y dyfodol.

- 16 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cymryd nifer o gamau i wella diwylliant y sefydliad ers 2019. Mae gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau eglur, sydd i'w weld fel pe bai wedi'i wreiddio'n dda ar draws y sefydliad. Mae enghreifftiau da o'r gwerthoedd a'r ymddygiadau'n cael eu defnyddio i lunio prosesau recriwtio, perfformiad a datblygu sefydliadol. Mae staff yn dweud bod diwylliant y Bwrdd Iechyd yn llawer gwell, ac maen nhw hefyd yn teimlo bod uwch arweinwyr yn fwy gweladwy ac yn haws mynd atynt. Fodd bynnag, mae ymatebion i'n harolwg staff yn dangos bod pocedi o ymddygiad gwael o fewn timau gweithrediadol y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd, yn enwedig mewn perthynas â bwlio ac aflonyddu.
- 17 Mae tystiolaeth gynnar bod y model gweithredu newydd yn cefnogi gwelliannau pellach mewn diwylliant sefydliadol. Roedd y staff y siaradom ni gyda nhw'n dweud pethau cadarnhaol am y newidiadau. Yn eu barn hwy, dylai'r model gweithredu newydd leihau'r arfer o weithio mewn seilios a chryfhau'r ethos "un CTM." Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i integreiddio Ysbyty Tywysoges Cymru yn llawn o fewn trefniadau gweithrediadol y sefydliad yn dilyn y newid i ôl troed daearyddol y Bwrdd Iechyd yn 2019. Er bod hyn yn siomedig, rydym yn teimlo'n weddol sicr y dylai'r model gweithredu Grwpiau Gofal newydd sicrhau bod yr ysbyty'n cael ei integreiddio'n llawn. Fe wnaeth staff godi pryderon am yr oedi a'r diffyg cyfathrebu ynghylch gweithredu Cam 2 y model gweithredu. Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn fel mater o frys er mwyn osgoi creu unrhyw ansicrwydd pellach i staff.
- 18 Fel yn 2019 a 2021, fe gynhaliom ni arolwg i gael cipolwg ar farn staff ar adeg ein gwaith<sup>8</sup>. Er nad yw'n cynrychioli barn yr holl staff ar draws y sefydliad, mae'r ymatebion yn rhoi mewnwelediadau defnyddiol i'r meysydd yr oeddem yn eu hadolygu. Caiff y negeseuon allweddol o'r arolwg eu crynhoi isod:
- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn darparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo nad oes digon o staff i roi cymorth i roi gofal diogel ac effeithiol. Roeddent hefyd yn teimlo bod lefelau staffio annigonol yn cael effaith negyddol ar les a morâl staff. Roedd hon yn thema gyffredin o ganlyniadau arolwg 2019.
  - Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn teimlo nad oedd cyfathrebu rhwng uwch reolwyr a staff yn effeithiol. Unwaith eto, roedd hon yn thema gyffredin o ganlyniadau arolwg 2019.

---

8 Cynhaliwyd yr arolwg gyda staff a oedd yn gweithio mewn adrannau lawdriniaethau, theatrau ac adrannau brys ar draws Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Cawsom gyfanswm o 121 o ymatebion yn 2019, 54 o ymatebion yn 2021, a 40 o ymatebion yn 2023.

- Roedd yr ymatebwyr yn siarad yn gadarnhaol ar y cyfan am natur gwaith tîm yn eu hadran, yn ogystal â'u gallu i godi llais a gweithredu pan ganfyddir gofal gwael. Fodd bynnag, dywedodd tua thraean o'r ymatebwyr eu bod hwy'n bersonol wedi profi bwlio, aflonyddu neu gam-drin yn y gwaith gan reolwr neu gydweithiwr; ac roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn teimlo nad yw'r sefydliad yn gweithredu'n effeithiol os yw staff yn profi bwlio, aflonyddu neu gam-drin gan aelodau eraill o staff. Unwaith eto, roedd hon yn thema gyffredin o ganlyniadau arolwg 2019.
- Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod staff yn cael eu hannog i roi gwybod am wallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol. Ar ben hynny, roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod gwersi o wallau, digwyddiadau trwch blewyn, a digwyddiadau gwirioneddol yn cael eu rhannu gyda staff. Mae hyn yn welliant sylweddol ar ganlyniadau arolwg 2019.
- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn siarad yn gadarnhaol am gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a datblygu ffurfiol, ac roedd y mwyafrif hefyd wedi cael arfarniad neu adolygiad perfformiad a datblygiad o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn welliant bach ar ganlyniadau arolwg 2019.

Er bod y canlyniadau'n dangos gwelliannau mewn nifer o feysydd ers 2019, maent hefyd yn amlygu'r angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i wneud gwelliannau pellach mewn perthynas â sicrhau lefelau staffio diogel a mynd i'r afael â bwlio, aflonyddu a cham-drin yn y gweithle.

- 19 Caiff ein hasesiad o gynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn argymhellion 2019 ei grynhoi yn **Arddangosyn 1**. Rydym yn nodi ein canfyddiadau yn erbyn pob argymhelliad mewn mwy o fanylder yn adran nesaf yr adroddiad.

### Arddangosyn 1: Statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2019

Wedi'u rhoi ar waith	Wedi'u rhoi ar waith yn rhannol	Wedi'u disodli	Cyfanswm
9	4	1	14

20 Ar y cyfan, mae hwn yn gyflawniad cadarnhaol ac yn arwydd clir o ymrwymiad, ysgogiad a dyhead y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'n pryderon yn llawn ac i unioni pethau. Serch hynny, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau pellach o hyd i wreiddio ei drefniadau llywodraethu ansawdd diwygiedig yn llawn ar draws y sefydliad a rhoi'r holl argymhellion sy'n weddill ar waith yn llawn. Yn benodol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd:

- Ymdrin â phryderon staff ynghylch yr oedi a'r diffyg cyfathrebu mewn perthynas â gweithredu Cam 2 y broses o roi'r model gweithredu newydd ar waith er mwyn osgoi creu unrhyw ansicrwydd pellach.
- Cwblhau'r Cynllun Gwaith Ansawdd Blynyddol i sicrhau yr eir ati'n llawn i gyflwyno'r strategaeth a'i pherchnogi'n weithrediadol, a sefydlu trefniadau cadarn i fonitro'r modd y cyflawnir y cynllun a'r Strategaeth Ansawdd i sicrhau eu bod yn gwella deilliannau ansawdd fel a fwriadwyd.
- Sefydlu trefniadau monitro a rheoli perfformiad eglur o fewn y strwythur Grwpiau Gofal newydd.
- Gwreiddio'r rolau Cyfarwyddwyr Clinigol yn llawn fel rhan o Gam 2 y broses o roi'r model gweithredu newydd ar waith i sicrhau cyfrifoldeb cyfunol llawn am ansawdd a diogelwch ar lefel weithrediadol.
- Sicrhau bod gan bob grŵp ansawdd gweithrediadol a diogelwch cleifion newydd gylch gorchwyl clir, rhoi digon o gymorth gweinyddol i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol fel a fwriadwyd.
- Gwneud defnydd gwell o adborth gan gleifion mewn amser real i wneud newidiadau a gwelliannau ar unwaith i brofiad cyffredinol cleifion, lle y bo'n briodol.
- Sicrhau bod profiad cleifion yn fwy amlwg mewn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ac ansawdd i'r Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol.
- Sicrhau bod archwiliadau clinigol yn cael eu staffio a'u cefnogi'n briodol i dargedu meysydd sy'n peri pryder, ac i gwblhau proses ailddilysu i asesu pa un a wnaed gwelliannau.

- Parhau i wella cynnwys cofrestrau risgiau'r Grwpiau Gofal, yn enwedig o ran nodi camau lliniarol.
- Sicrhau bod gan bob ymarferydd perthnasol, gan gynnwys y rhai mewn timau gofal iechyd cymunedol, fynediad at DATIX i hysbysu am ddigwyddiadau a'u rheoli yn unol â phroses y Bwrdd Iechyd.
- Integreiddio ysbyty Tywysoges Cymru yn llawn i drefniadau gweithrediadol y sefydliad.
- Parhau i herio a mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n anghyson â Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau'r sefydliad.
- Mynd i'r afael â'r ôl-groniad o Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau, a rhoi prosesau gwell ar waith i sicrhau bod o Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno'n fwy amserol yn y dyfodol.

Bydd hefyd yn angenrheidiol i'r Bwrdd barhau i oruchwylio effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ansawdd diwygiedig y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn gyson o gymorth i roi gofal iechyd diogel ac o ansawdd da a chyflawni deilliannau cadarnhaol i gleifion. Yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn, nid ydym yn teimlo bod angen trefnu unrhyw waith dilynol manwl pellach. Lle'r ydym wedi nodi'r angen am weithredu parhaus, byddwn yn parhau i oruchwylio cynnydd y Bwrdd Iechyd yn y meysydd hyn trwy ein priod raglenni gwaith arferol.

# Canfyddiadau manwl

- 21 Rydym yn nodi ein canfyddiadau manwl am gynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn pob argymhelliad isod. Rydym hefyd yn nodi pa argymhellion y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u rhoi ar waith yn llawn, wedi'u rhoi ar waith yn rhannol, neu ba argymhellion a ddisodlwyd.

## Argymhellion i wella'r ffocws strategol ar ansawdd, diogelwch cleifion, a risg

### Argymhelliad 1

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gytuno ar flaenoriaethau a deilliannau ansawdd sefydliadol i gefnogi ansawdd a diogelwch cleifion. Dylid adlewyrchu hyn â fersiwn wedi'i diweddarau o Strategaeth Ansawdd y Bwrdd Iechyd.

### Canfyddiadau

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a mabwysiadu Strategaeth Ansawdd tair blynedd newydd, sy'n disgrifio blaenoriaethau ansawdd y sefydliad yn glir.**

Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Ansawdd tair blynedd newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2023. Mae'r strategaeth, sy'n cyd-fynd â chwe pharth ansawdd y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd<sup>9</sup>, yn disgrifio'n glir beth yw gweledigaeth, cenhadaeth, addewid, uchelgeisiau a nodau ansawdd y sefydliad. Mae'r strategaeth yn amlinellu sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin ag ansawdd, yn ogystal â sut y bydd llwyddiant yn edrych. Mae'r strategaeth, ynghyd â'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion, yn darparu sylfaen dda i roi cymorth i gyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Dyletswydd Gonestrwydd newydd, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2023.

Ar adeg ein gwaith ni, roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu Cynllun Gwaith Ansawdd Blynyddol i nodi amcanion ansawdd i roi cymorth i gyflawni ei uchelgeisiau a'i nodau ansawdd. Fe wnaethom adolygu drafftiau cynnar o'r cynllun yn ystod ein gwaith ac, yn ein barn ni, roedd y camau yr oedd y Bwrdd Iechyd yn eu datblygu yn glir, yn gryno ac yn fesuradwy. Rhaid i waith i gwblhau'r cynllun yn gyflym barhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau yr eir ati'n llawn i gyflwyno'r strategaeth a'i pherchnogi'n weithrediadol. Ar ben hynny, mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd sefydlu trefniadau cadarn i fonitro'r modd y cyflawnir y cynllun a'r strategaeth i sicrhau eu bod yn gwella deilliannau ansawdd fel a fwriadwyd.

### Statws

Wedi'i roi ar waith

## Argymhelliad 2

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio dull strategol ac wedi'i gynllunio i wella trefniadau rheoli risg ar draws ehangder ei wasanaethau. Rhaid i hyn sicrhau bod yr holl strategaethau a fframweithiau allweddol yn cael eu hadolygu, eu diweddarau a'u halinio i adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu diweddaraf, yn benodol:

- a. Bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn adlewyrchu'r amcanion a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) cyfredol a blaenoriaethau ansawdd y Bwrdd Iechyd.
- b. Bod y Strategaeth Rheoli Risg yn adlewyrchu'r trefniadau trosolwg ar gyfer Fforwm Sicrwydd y Bwrdd, y Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch Cleifion ac unrhyw newidiadau i reoli risg o fewn y Bwrdd Iechyd.
- c. Rhaid i'r Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch Cleifion gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth Ansawdd a bod yn gyson â'r Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau.
- ch. Mae'r amodau gorchwyl ar gyfer y pwyllgorau perthnasol, gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio, y PADR<sup>10</sup> a Chyfarfodydd Busnes Clinigol<sup>11</sup>, yn adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu diweddaraf a nodir yn y strategaethau a fframweithiau perthnasol.

---

10 Ym mis Rhagfyr 2019, newidiodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg (PADR) i fod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ac fe newidiodd y Pwyllgor Archwilio i fod y Pwyllgor Archwilio a Risg.

11 Cafodd Cyfarfodydd Busnes Clinigol (CBC) eu diddymu yn dilyn cyflwyno'r model gweithredu newydd.



## Canfyddiadau

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w drefniadau rheoli risg strategol a gweithrediadol, sy'n gweithredu'n dda.**

**Mae gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cymeradwy, sy'n gweithredu'n dda.** Ym mis Mawrth 2022, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gymeradwy a chyflwyno Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd newydd. Mae hyn yn welliant sylweddol ar sefyllfa 2019, lle'r oedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi dyddio, yn anghyson â strategaeth rheoli risg y Bwrdd Iechyd, ac yn peidio ag adlewyrchu blaenoriaethau CTCL y Bwrdd Iechyd. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd bellach yn rhan annatod o system rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd, ac mae'n diffinio'n glir pa risgiau strategol / pa brif risgiau allai effeithio ar gyrraedd pedwar nod strategol y sefydliad<sup>12</sup>. Mae'n darparu gwybodaeth dda am fylchau mewn rheolaethau a sicrwydd, yn ogystal â champau lliniarol. Mae'r Bwrdd yn mynd ati'n weithredol i adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mhob cyfarfod cyhoeddus. Ar adeg ein gwaith ni, roedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cyfeirio'n glir at y risgiau strategol/prif risgiau i wireddu uchelgeisiau ansawdd a chyrraedd nodau ansawdd y Bwrdd Iechyd, ac roedd ganddo gysylltiadau da â threfniadau llywodraethu ansawdd diwygiedig y sefydliad.

**Mae strategaeth rheoli risg y Bwrdd Iechyd a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig yn gynhwysfawr, yn gyfoes, ac yn adlewyrchu'r model gweithredu newydd.** Ym mis Ionawr 2021, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddiweddarau ei strategaeth rheoli risg a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig. Mae'r dogfennau hyn yn gynhwysfawr ac wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau'n gyson i adlewyrchu newidiadau perthnasol o fewn y Bwrdd Iechyd. Ym mis Mai 2022, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo fersiynau diwygiedig o'r polisi rheoli risg, y datganiad o barodrwydd i dderbyn risg, a'r matrices sgorio risg. Ym mis Mai 2023, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd newidiadau pellach i'r strategaeth rheoli risg, y datganiad rheoli risg, a'r parth a matrices sgorio risg i adlewyrchu model gweithredu newydd y sefydliad. Rydym yn trafod trefniadau rheoli risg y Bwrdd Iechyd yn fanylach mewn adran ddiweddarach (gweler **Argymhelliad 10**).

---

<sup>12</sup> Pedwar nod strategol y Bwrdd Iechyd yw: Creu Iechyd, Gwella Gofal, Ysbrydoli Pobl a Chynnal ein Dyfodol.



**Canfyddiadau**

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio ei Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion i gefnogi'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion cenedlaethol, ei Strategaeth Ansawdd ei hun, a'r model gweithredu newydd.** Ym mis Ionawr 2023, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion diwygiedig. Mae'r fframwaith tair blynedd yn adlewyrchu gofynion y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion cenedlaethol, a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020 a gyflwynodd Dyletswydd Ansawdd a Dyletswydd Gonestrwydd gryfach ar gyfer y GIG yng Nghymru ym mis Ebrill 2023. Mae'r fframwaith yn gynhwysfawr ac yn ateb y gofyniad i fod â System Rheoli Ansawdd i sicrhau bod gofal yn bodloni'r chwe pharth ansawdd a nodwyd gan y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd. Mae'r fframwaith hefyd yn adlewyrchu model gweithredu newydd y Bwrdd Iechyd ac yn cysylltu'n glir â gwerthoedd y sefydliad.

**Statws**

Wedi'i roi ar waith

## Argymhellion i wella arweinyddiaeth ar ansawdd a diogelwch cleifion

### Argymhelliad 3

Sicrhau bod cydgyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch cleifion ar draws y tîm gweithredol a rolau sydd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer arweinwyr proffesiynol:

- Cryfhau rôl y Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwyr Clinigol mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion.
- Egluro rolau, cyfrifoldebau, atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion yn y cyfarwyddiaethau.
- Sicrhau bod digon o gapasiti a chymorth, ar lefel gorfforaethol ac ar lefel cyfarwyddiaethau, sydd wedi'u neilltuo i ansawdd a diogelwch cleifion.

### Canfyddiadau

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ac egluro rolau, cyfrifoldebau ac adnoddau yn sylweddol mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion ar draws y tîm gweithredol a'r strwythur Grwpiau Gofal newydd.**

**Mae'n amlwg bod cydgyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch cleifion ar draws y tîm gweithredol. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i sicrhau cydgyfrifoldeb llawn am ansawdd a diogelwch cleifion ar lefel weithrediadol.** Yn ogystal â'r rolau arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer eu priod ddisgyblaethau, mae gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol; y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion; y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd; a Chyfarwyddwr Gweithredol interim Iechyd y Cyhoedd<sup>13</sup> oll gyfrifoldebau penodol am ansawdd a diogelwch cleifion ar lefel weithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion yn parhau i weithredu fel yr Arweinydd Gweithredol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau rôl a chyfrifoldebau Cyfarwyddwyr Clinigol, nid yw'r trefniadau hyn wedi'u gwreiddio'n llawn ar lefel weithrediadol eto. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o hyn ac yn bwriadu gwreiddio rolau Cyfarwyddwr Clinigol yn llawn fel rhan o gam nesaf y broses o roi'r model gweithredu newydd ar waith. Dylai hyn arwain at fwy o gydgyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch ar lefel weithrediadol.

---

<sup>13</sup> Ar adeg ein gwaith ni, roedd rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd yn wag ac roedd trefniadau interim ar waith.

## Canfyddiadau

### **Mae'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn darparu eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau, atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion.**

Ym mis Ionawr 2023, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion tair blynedd newydd, sy'n gweithredu fel ei System Rheoli Ansawdd. Mae'r fframwaith yn cyd-fynd â strategaeth sefydliadol a threfniadau llywodraethu ehangach y Bwrdd Iechyd ac mae'n adlewyrchu canllawiau cenedlaethol. Mae'r fframwaith yn darparu eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau corfforaethol a gweithrediadol, ac yn nodi'n glir y broses sicrwydd corfforaethol (ar lefel y Bwrdd), yn ogystal â model llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion y Grwpiau Gofal. O dan y model, mae'n ofynnol i bob Grŵp Gofal fod â Fforwm Ansawdd a Diogelwch. Mae pob fforwm yn atebol i'r Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Gweithrediadol ar draws y Bwrdd Iechyd sydd, yn ei dro, yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd trwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Rydym yn trafod effeithiolrwydd y trefniadau hyn mewn adran ddiweddarach (gweler **Argymhelliad 4**).

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'r capasiti i gefnogi ansawdd a diogelwch cleifion yn sylweddol, ar lefel gorfforaethol a gweithrediadol.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i gynyddu capasiti i gefnogi ansawdd a diogelwch cleifion ar bob lefel o'r sefydliad. Yn gorfforaethol, cefnogir y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Pryderon a Honiadau, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a Phrofiad Cleifion, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg, a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch. Hefyd, ceir tri Phennaeth Ansawdd, tair rôl Uwch Nyrs Arweiniol, a phum rôl Rheolwr Gwella Diogelwch Cleifion sy'n cyd-fynd â'r Grwpiau Gofal newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi canoli ei Dimau Llywodraethu Ansawdd gweithrediadol. Mae'r timau hyn yn cynorthwyo'r Grwpiau Gofal i reoli:

- digwyddiadau diogelwch cleifion;
- ymchwiliadau
- gwaith ar gwynion, canmoliaeth a'r rheoliadau gweithio i wella;
- profiad cleifion;

**Canfyddiadau**

- adolygiadau o farwolaethau a niwed;
- datrysiadau diogelwch cleifion;
- adolygiadau allanol o gynlluniau gweithredu; ac
- eiriolwyr gwella ansawdd a chyfadrannau.

Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, a ddylai gryfhau cydnerthedd a sicrhau mwy o gysondeb yn y ffordd y mae'r materion hyn yn cael eu goruchwyllo a'u rheoli ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r swyddogaeth DATIX ganolog hefyd wedi cael ei throsglwyddo i'r Tîm Llywodraethu Ansawdd Corfforaethol. Rydym yn trafod y trosglwyddiad ymhellach mewn adran ddiweddarach (gweler **Argymhelliad 11**).

**Statws**

Wedi'i roi ar waith yn rhannol

## Argymhellion i wella craffu sefydliadol ar ansawdd a diogelwch cleifion

### Argymhelliad 4

Mae angen adolygu rolau a swyddogaeth y PADR er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'w ddiben ac yn adlewyrchu'r Strategaeth Ansawdd, y Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch Cleifion a risgiau corfforaethol allweddol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion. Dylai hyn gynnwys y canlynol:

- a. Rhaid i'r broses o roi'r is-grwpiau ar waith i gefnogi'r PADR gael ei chwblhau gan sicrhau bod digon o gymorth (gweinyddol a chorfforaethol) i alluogi'r grwpiau hyn i weithredu'n effeithiol.
- b. Gwelliannau i gynnwys, dadansoddi, eglurder a thryloywder gwybodaeth a gyflwynir i'r PADR.
- c. Dylid rhoi ffocws i sicrhau bod y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn cael ei ddefnyddio i wella trosolwg ar ansawdd a diogelwch cleifion ar draws y sefydliad cyfan, gan gynnwys gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr. I gyd-fynd â hyn, dylid darparu'r adnoddau angenrheidiol i'w roi ar waith yn brydlon, a dylai fod cyfathrebu a hyfforddiant mewnol.

### Canfyddiadau

**Mae rôl y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn eglur ac yn addas ar gyfer y diben, ac mae'n gweithredu'n effeithiol.**

**Cafodd cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gweithredu is-grwpiau i gefnogi'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch eu diddymu yn 2020.** Penderfynodd y Bwrdd Iechyd yn 2020 na fyddai'n gweithredu'r is-grwpiau arfaethedig i gefnogi'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg. O ganlyniad, mae'r agwedd hon ar yr argymhelliad wedi cael ei disodli.

## Canfyddiadau

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fireinio a gwella adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.** Yn 2021, fe wnaethom adrodd yn gadarnhaol ar yr wybodaeth a oedd yn cael ei chyflwyno gan y Grwpiau Ardal Integredig i'r pwyllgor. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ailedrych ar y trefniadau hyn yn ddiweddar i adlewyrchu'r model gweithredu newydd. Yn awr, mae'r Grwpiau Gofal newydd yn rhoi sicrwydd i'r pwyllgor trwy adroddiad templed. Nod y templed yw sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn fformat cyson mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y pwyllgor. Fodd bynnag, gan mai newydd ddechrau datblygu oedd y trefniadau i raddau helaeth ar adeg ein gwaith ni, canfuom fod lefel y manylder a oedd yn cael ei ddarparu gan y Grwpiau Gofal yn eu priod adroddiadau'n amrywio. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn ac yn bwriadu gweithio gyda phob Grŵp Gofal i gytuno ar y lefel gywir o fanylder ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. Canfu ein harsylwadau ar gyfarfodydd pwyllgorau fod Aelodau Annibynnol yn darparu cydbwysedd da o gymorth, craffu a herio. Gwelsom hefyd arferion da o ran bod yn agored a thryloyw ar ystod o faterion o ran ansawdd a diogelwch cleifion. Canfuom fod y pwyllgor yn gwneud defnydd priodol o Storiâu Cleifion, gyda'r Bwrdd Iechyd yn dangos yn glir sut y mae wedi dysgu o faterion neu bryderon.

**Mae'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn rhoi disgrifiad clir o'r trefniadau llywodraethu, ac mae gwaith i wreiddio'r trefniadau hyn o fewn y Grwpiau Gofal yn mynd rhagddo'n dda.** Fel a nodwyd yn flaenorol, mae'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion newydd yn darparu eglurder ynghylch y trefniadau o fewn y Bwrdd Iechyd i oruchwylio ansawdd a diogelwch cleifion ar bob lefel o'r sefydliad. Mae sawl grŵp newydd wedi cael eu sefydlu o dan y fframwaith, megis y Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Gweithrediadol a'r Bwrdd Gwella Gofal. Fodd bynnag, nid oes gan bob grŵp gylch gorchwyl eglur eto (e.e. y Bwrdd Gwella Gofal). Er bod y grwpiau hyn yn amrywio o ran eu haeddfedrwydd ar adeg ein gwaith ni, roedd niferoedd da o staff gweithrediadol a gweithredol yn bresennol ynddynt. Fodd bynnag, gwelsom fod eu heffeithiolrwydd o bosibl yn cael ei rwystro gan ddull anghyson o'u gweinyddu. Yn benodol, gwelsom enghreifftiau o rai papurau'n cael eu cyflwyno'n hwyr neu eu cyflwyno yn y fformat anghywir. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r materion gweinyddol hyn i sicrhau bod y grwpiau'n gweithredu'n effeithiol fel a fwriadwyd.

## Statws

Wedi'i roi ar waith yn rhannol

**Argymhelliad 5**

Rhaid rhoi cymorth priodol i aelodau annibynnol allu cyflawni eu cyfrifoldebau trwy ddarparu rhaglen sefydlu ddigonol a datblygiad parhaus er mwyn iddynt allu craffu'n effeithiol ar yr wybodaeth a gyflwynir iddynt.

**Canfyddiadau****Caiff Aelodau Annibynnol eu cefnogi'n briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau.**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i wella ei raglenni sefydlu a datblygu ar gyfer Aelodau Annibynnol. Mae pob Aelod a benodir i'r Bwrdd Iechyd yn dilyn rhaglen sefydlu Aelodau Annibynnol Llywodraeth Cymru ac yn cael hyfforddiant ar ystod o bynciau i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. Rhoddir cymorth pellach i Aelodau Annibynnol newydd trwy Becyn Sefydlu pwrpasol y Bwrdd Iechyd. Mae cynnwys y pecyn yn fanwl ac yn cwmpasu ehangder y rôl. Mae'r pecyn yn darparu map clir o strwythur llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd, a darperir gwybodaeth am gylch gwaith pob pwyllgor, gyda dolenni i'w Cylchoedd Gorchwyl. Mae'r map wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar i adlewyrchu'r penodiadau newydd i'r uwch rolau gweithredol yn y Bwrdd Iechyd. Mae Aelodau Annibynnol yn cael arfarniadau rheolaidd gyda'r Cadeirydd ac mae ganddynt fynediad da at gyfleoedd hyfforddi a datblygu i ddiwallu eu hanghenion penodol. Yn ystod ein gwaith, dywedodd Aelodau Annibynnol wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol gan y Bwrdd Iechyd. Roeddent yn canmol y cyfarfodydd briffio rheolaidd a gynhelir gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr sy'n eu galluogi i aros gyfuwch â'r heriau a'r materion perthnasol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Yn eu tyb hwy, mae'r cyfarfodydd hyn yn agored ac yn adeiladol. Bu Aelodau Annibynnol hefyd yn siarad yn gadarnhaol am Sesiynau Datblygu'r Bwrdd, sydd bellach yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt drafod ac archwilio pynciau (megis rheoli risg) yn fanylach.

**Statws**

Wedi'i roi ar waith

## Argymhelliad 6

Mae angen rhoi ffocws ac adnoddau digonol i gasglu, dadansoddi, monitro a dysgu o brofiad cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd. Rhaid i hyn gynnwys defnyddio adborth mewn amser real gan gleifion.

## Canfyddiadau

**Mae dull y Bwrdd Iechyd o gasglu, dadansoddi, monitro a dysgu o brofiad cleifion wedi gwella. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i sicrhau ei fod yn dysgu ac yn gwella'n brydlon o adborth cleifion, a gallai profiad cleifion fod yn fwy amlwg wrth adrodd wrth y Bwrdd a'r pwyllgorau ar berfformiad ansawdd.**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i wella ei drefniadau ar gyfer casglu, dadansoddi, monitro a dysgu o brofiad cleifion. O ran casglu gwybodaeth am brofiad cleifion, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu capasiti o fewn ei Wasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion, ac roedd gweithgarwch i recriwtio i'r swyddi newydd ar y gweill ar adeg ein gwaith. Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith y cytunwyd arno hefyd ar gyfer ymweliadau gan aelodau'r Bwrdd. Mae'n ymddangos bod y fframwaith a'r ymweliadau'n gweithio'n dda, gydag adroddiadau da ar y canfyddiadau a'r arsylwadau allweddol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Fodd bynnag, canfuom y gallai'r Bwrdd Iechyd wneud gwell defnydd o adborth gan gleifion mewn amser real i wneud newidiadau a gwelliannau ar unwaith i brofiad cyffredinol cleifion, lle y bo'n briodol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi gwella ei ddefnydd o storïau cleifion ac maent bellach yn cael eu cynnwys yn fwy amlwg yn y Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a chyfarfodydd gweithrediadol perthnasol. Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen wedi'i chynllunio i gefnogi'r broses raddol o gyflwyno'r Prawf Cyfeillion a Theuluoedd<sup>14</sup>, mesurau canlyniadau a adroddwyd gan gleifion, a mesurau profiad a adroddwyd gan cleifion. Er bod y datblygiadau hyn yn galonogol, gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i sicrhau bod profiad cleifion yn fwy amlwg mewn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ac ansawdd i'r Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol.

## Statws

Wedi'i roi ar waith yn rhannol

---

14 Nod y Prawf Cyfeillion a Theuluoedd yw helpu darparwyr gwasanaethau i ddeall a yw cleifion yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir, neu lle mae angen gwelliannau.



## Argymhelliad 7

Mae angen gwella amlygrwydd a throsolwg ar weithgareddau archwilio a gwella clinigol ar draws cyfarwyddiaethau ac ar lefel gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys adnabod allanolion a chynyddu i'r eithaf gyfleoedd i rannu arfer da a gwersi.

## Canfyddiadau

**Mae archwilio clinigol yn ddigon amlwg ar draws y sefydliad ar lefel gorfforaethol a gweithrediadol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn dal i fodoli i dargedu archwilio clinigol at feysydd sy'n peri pryder, yn ogystal â defnyddio proses aiddilysu i asesu pa un a wnaed gwelliannau.**

Ers ein gwaith yn 2019, mae'r Bwrdd Iechyd wedi canoli ei swyddogaeth archwilio clinigol, gan ei symud o swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol i'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol. Canfu ein gwaith yn 2019, er i'r Pwyllgor Archwilio gael y Cynllun Archwilio Clinigol, nad oedd digon o graffu ar yr ystod o weithgarwch archwilio a gwella ar y lefel gorfforaethol. Yn 2021, cytunodd y Bwrdd Iechyd ar Fframwaith Sicrwydd Archwilio Clinigol sy'n nodi'n glir pa rôl a chyfrifoldebau a ddirprwyir gan y Bwrdd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio a Risg wrth geisio sicrwydd mewn perthynas ag archwilio clinigol. Mae'r fframwaith yn gweithredu'n dda, gydag adroddiadau rheolaidd i'r ddau bwyllgor ar gyflawni'r cynllun yn ogystal â chanlyniadau ac effaith. Canfuom dystiolaeth o fwy o ddysgu o archwilio clinigol, gan gynnwys defnyddio cylchlythyr archwilio clinigol yn hyrwyddo gwaith y tîm archwilio clinigol. Mae cyflwyno'r system Rheoli a Thracio Archwiliadau hefyd wedi darparu goruchwyliaeth well a threfn well ar draws y sefydliad i fonitro mewn amser real sut y cyflawnir gwaith archwilio clinigol a sut y cydymffurfir â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE - National Institute for Health and Care Excellence). Mae hyfforddiant hefyd yn fwy amlwg nag o'r blaen, gydag ystod o hyfforddiant archwilio ac effeithiolrwydd clinigol pwrpasol yn cael ei ddarparu i staff gan gynnwys hyfforddeion fferylliaeth a meddygon dan hyfforddiant fel rhan o'r rhaglen addysgu ôl-raddedig. Fodd bynnag, mae capasiti staff priodol i gymryd rhan yn yr archwiliadau Haen 1 cenedlaethol yn parhau i fod yn gryn her. Ar ben hynny, fe wnaeth diweddariad ym mis Mawrth 2023 i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch nodi'r oedi a fu cyn cyflwyno archwiliadau Haen 2 arfaethedig gan bod adnoddau archwilio clinigol wedi cael eu dargyfeirio i danategu'r achosion adolygu marwolaethau COVID-19 a flaenoriaethwyd. O ganlyniad, mae cyfleoedd yn cael eu colli i dargedu archwilio clinigol i feysydd sy'n peri pryder yn ogystal â defnyddio proses aiddilysu i gadarnhau, lle gwnaed newidiadau, bod gwelliannau wedi'u cyflawni.

## Statws

Wedi'i roi ar waith

## Argymhellion i wella'r trefniadau ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion ar lefel cyfarwyddiaethau

### Argymhelliad 8

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd egluro atebolrwydd a chyfrifoldebau am ansawdd a diogelwch cleifion o fewn cyfarwyddiaethau. Rhaid i hyn gynnwys adolygiad o'r rôl Penaethiaid Nyrsio mewn perthynas â rheoli safleoedd ac ansawdd a diogelwch cleifion.

### Canfyddiadau

**Ceir atebolrwydd a chyfrifoldebau eglur am ansawdd a diogelwch cleifion ar bob lefel o'r sefydliad. Ceir hefyd fwy o eglurder ynghylch rôl a chyfrifoldebau'r Penaethiaid Nyrsio ym mhob un o'r tri safle aciwt o ran ansawdd a diogelwch cleifion.**

Mae atebolrwydd a chyfrifoldebau am ansawdd a diogelwch cleifion wedi cael eu cryfhau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn amlwg yn y pwyslais cynyddol a ddarperir bellach ar draws y Bwrdd Iechyd mewn meysydd fel Atal a Rheoli Heintiau; rheoli wserau pwysu; ac atal cwmpadau. Roedd atebolrwydd a chyfrifoldebau gweithrediadol yn cael eu gwreiddio ar draws y strwythur Grwpiau Gofal newydd ar adeg ein gwaith. Mae atebolrwydd a chyfrifoldebau'r Penaethiaid Nyrsio mewn perthynas â rheoli safleoedd ac ansawdd a diogelwch cleifion hefyd wedi'u disgrifio'n glir. Er mai dim ond yn ddiweddar y penodwyd rhai i'w swyddi, canfuom fod ganddynt ymdeimlad clir o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros yr agenda ansawdd a diogelwch. Fodd bynnag, fel a ganfuom yn 2021, mae gorddibyniaeth o hyd ar y Penaethiaid Nyrsio i ddarparu'r safbwynt clinigol cyffredinol mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch cleifion allweddol, gyda mewnbwn cyfyngedig gan dimau meddygol. Fel a soniwyd yn flaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o hyn, ac mae'n bwriadu gwreiddio rolau'r Cyfarwyddwyr Clinigol yn llawn fel rhan o gam nesaf y broses o roi'r model gweithredu newydd ar waith. Dylai hyn arwain at gydgyfrifoldeb llawn am ansawdd a diogelwch ar lefel weithrediadol, a mwy o fewnbwn meddygol mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch cleifion allweddol.

### Statws

Wedi'i roi ar waith

## Argymhelliad 9

Rhaid adolygu ffurf a swyddogaeth pwyllgorau llywodraethu'r cyfarwyddiaethau a Chyfarfodydd Busnes Clinigol i sicrhau bod

- a. Cylch gorchwyl clir, aelodaeth briodol ac amllder priodol ar gyfer y cyfarfodydd hyn.
- b. Digon o ffocws, dadansoddi a chraffu ar wybodaeth mewn perthynas â materion a chamau gweithredu sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch cleifion.
- c. Eglurder ynglŷn â rôl a phwerau penderfynu Cyfarfodydd Busnes Clinigol.

## Canfyddiadau

### **Mae'r argymhelliad hwn wedi'i ddisodli.**

Roedd yr argymhelliad hwn yn ymwneud â strwythur blaenorol a oedd ar waith yn ystod ein hadolygiad yn 2019. Disodlwyd y trefniadau hyn yn 2020 pan wnaeth y Bwrdd Iechyd newidiadau sylweddol i'r ffordd yr oedd yn trefnu ac yn rheoli ei fusnes trwy sefydlu tri Grŵp Ardal Integredig dan arweinyddiaeth glinigol. Ers ein hadolygiad yn 2021, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cychwyn ar broses ailstrwythuro sefydliadol bellach, gyda'r Grwpiau Ardal Integredig yn cael eu disodli gan chwe Grŵp Gofal newydd ym mis Tachwedd 2022. Mae trefniadau goruchwyllo newydd ar waith erbyn hyn, gan gynnwys y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'r Bwrdd Gwella Gofal. Rydym wedi gwneud sylwadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn mewn adran gynharach (gweler **Argymhelliad 4**). Fodd bynnag, nid oedd trefniadau rheoli perfformiad y Grwpiau Gofal wedi cael eu sefydlu ar adeg ein gwaith ni. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y rhain yn cael eu sefydlu'n brydlon, yn enwedig o ystyried yr heriau perfformiad sy'n wynebu'r sefydliad. Wrth wneud hynny, dylai'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi Llythyrau Atebolrwydd sy'n nodi'n glir beth yw atebolrwydd a chyfrifoldebau'r Grwpiau Gofal mewn perthynas â pherfformiad, cyllid ac ansawdd. Dylai'r Llythyrau Atebolrwydd hefyd nodi'r trefniadau ar gyfer uwchgyfeirio Grwpiau Gofal sy'n methu â chyflawni eu chyfrifoldebau mewn perthynas ag ansawdd, perfformiad a chyllid.

## Statws

Wedi'i ddisodli

## Argymhellion i wella'r modd y caiff risgiau eu hadnabod a'u rheoli

### Argymhelliad 10

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod systemau rheoli risg clir a chynhwysfawr ar lefel cyfarwyddiaethau ac ar lefel gorfforaethol, gan gynnwys adolygu a phoblogi cofrestrau risgiau. Dylai hyn gynnwys eglurder ynglŷn ag uwchgyfeirio risgiau a chyfrifoldebau ar lefel cyfarwyddiaethau ac ar lefel gorfforaethol am gofrestrau risgiau. Rhaid adlewyrchu hyn yn y strategaeth risg.

### Canfyddiadau

**Mae trefniadau rheoli risg eglur a chynhwysfawr ar bob lefel o'r Bwrdd Iechyd, gyda phroses eglur i uwchgyfeirio risgiau o wasanaeth i'r Bwrdd.**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau rheoli risg yn sylweddol ers ein hadolygiad yn 2019. Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth rheoli risg eglur, a danategir gan gyfres o bolisiau a gweithdrefnau. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn darparu cymorth rheoli risg effeithiol ar gyfer timau gweithrediadol, y tîm gweithredol, a'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Ar adeg ein gwaith ni, roedd y Bwrdd Iechyd wedi darparu hyfforddiant rheoli risg i dros 360 o aelodau o staff. Mae'n ymddangos bod yr hyfforddiant hwn, ynghyd â'r cymorth ehangach a roddir gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol, wedi gwella ymwybyddiaeth o reoli risg sylweddol ar draws y sefydliad, yn enwedig ymhlith timau gweithrediadol. Fel rhan o gyflwyno'r model gweithredu newydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dadgyfuno cofrestrau risgiau'r Grwpiau Ardal Leol, ac mae'r risgiau wedi cael eu trosglwyddo i gofrestrau risgiau'r Grwpiau Gofal newydd. Ymdriniwyd yn dda â'r broses hon, gyda goruchwyliaeth dda yn cael ei darparu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli o hyd i gryfhau cynnwys cofrestrau risgiau Grwpiau Gofal, yn enwedig o ran nodi camau lliniarol. Ceir trefniadau eglur ar gyfer uwchgyfeirio risgiau o wasanaethau i'r Bwrdd. Mae gan y Bwrdd Rheoli Gweithrediadol newydd gyfrifoldeb penodol am adolygu'r holl risgiau gweithrediadol a nodwyd i'w huwchgyfeirio at y gofrestr risg sefydliadol (gorfforaethol) i sicrhau eu bod yn cael sgôr yn unol â'r strategaeth rheoli risg a bod mesurau rheoli a lliniarol yn gadarn. Rydym wedi gweld hyn yn digwydd yn ymarferol, gyda Grwpiau Gofal yn dod â risgiau gweithrediadol i'r Bwrdd Rheoli Gweithrediadol i'w gwirio a'u herio. Mae'r gofrestr risg sefydliadol (gorfforaethol) wedi cael chryfhau hefyd, ac mae tystiolaeth dda bod risgiau corfforaethol yn cael eu hadolygu a'u rheoli'n weithrediadol gan y tîm gweithredol.

### Statws

Wedi'i roi ar waith

## Argymhellion i wella'r modd y caiff digwyddiadau, pryderon a chwynion eu rheoli

<b>Argymhelliad 11</b>	<p>Rhaid gwella'r drosolwg a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer DATIX fel ei fod yn cael ei ddefnyddio fel offeryn rheoli a dysgu effeithiol. Dylai hyn hefyd gynnwys triogli gwybodaeth mewn perthynas â phryderon, ar lefel cyfarwyddiaethau ac ar lefel gorfforaethol, a mecanweithiau ffurfiol i adnabod a rhannu gwersi.</p>
<b>Canfyddiadau</b>	<p><b>Mae DATIX wedi'i wreiddio'n dda ar draws y Bwrdd Iechyd, gyda gwell trefniadau goruchwyllo a llywodraethu ar waith.</b></p> <p>Yn 2021, canfuom fod trefniadau goruchwyllo a llywodraethu ar gyfer DATIX wedi cael eu gwella'n fawr, gyda mwy o ymgysylltiad ar bob lefel o'r sefydliad mewn perthynas â gwersi a rheoli camau gweithredu sy'n ofynnol yn dilyn digwyddiadau, cwynion a honiadau. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith o hyd i sicrhau bod pob ymarferwr, fel y rhai o fewn timau gofal iechyd cymunedol, yn gallu cael mynediad at DATIX i hysbysu am ddigwyddiadau a'u rheoli yn unol â phroses y Bwrdd Iechyd. Gwneir mwy o ddefnydd o adroddiadau DATIX, sy'n cael eu trafod yn rheolaidd yn y cyfarfodydd ansawdd, diogelwch cleifion a phrofiad cleifion perthnasol. Mae adroddiadau wythnosol am bryderon hefyd yn cael eu cynhyrchu a'u hadolygu, gydag ymgysylltiad da gan uwch swyddogion gweithredol. Fel a nodwyd yn gynharach, trosglwyddwyd y swyddogaeth DATIX ganolog i'r Tîm Llywodraethu Ansawdd Corfforaethol. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, sydd wedi sicrhau dull mwy cyson o reoli ac uwchgyfeirio digwyddiadau a phryderon. Mae'r Tîm Llywodraethu Ansawdd Corfforaethol hefyd yn darparu adroddiadau i'r holl Grwpiau Gofal ar wybodaeth DATIX etifeddol ar gyfer risgiau, digwyddiadau, cwynion a honiadau.</p>
<b>Statws</b>	<p>Wedi'i roi ar waith</p>

<b>Argymhelliad 12</b>	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol mewn ymchwilio i bryderon a'u rheoli. Hefyd, mae angen i staff cyfarwyddiaethau gael eu grymuso i berchnogi pryderon a chyflawni camau gwella a dysgu gwersi.
<b>Canfyddiadau</b>	<p><b>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'r ddarpariaeth hyfforddiant i staff ar ymchwilio i bryderon a'u rheoli.</b></p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei ddull o reoli pryderon a chwynion yn sylweddol. Mae proses pryderon a chwynion y Bwrdd Iechyd wedi'i nodi'n glir, ac mae rolau newydd wedi cael eu creu i roi cymorth i'w rhoi ar waith a goruchwyllo hynny gan gynnwys Cyfarwyddwr Cynorthwyol Pryderon a Honiadau, Pennaeth Pryderon, a Rheolwr Tîm Pryderon. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol. O ganlyniad, mae staff bellach yn fwy medrus mewn rheoli pryderon a chwynion. Ceir mwy o berchnogaeth ar bryderon ar lefel weithrediadol hefyd. Trafodir pryderon a chwynion yn rheolaidd yn y cyfarfodydd ansawdd, diogelwch cleifion, a phrofiad cleifion gweithrediadol perthnasol, ac mae camau gweithredu i ddysgu a gwella'n cael eu cymryd. Mae gwersi a ffyrdd o wella'n cael eu rhannu gyda'r Bwrdd Rheoli Gweithrediadol hefyd fel rhan o'u hadroddiadau tuag i fyny.</p>
<b>Statws</b>	Wedi'i roi ar waith

## Argymhellion ar gyfer diwylliant a dysgu sefydliadol

### Argymhelliad 13

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau datblygiad amserol Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau gyda rhaglen ymgysylltu eglur ar gyfer ei roi ar waith.

### Canfyddiadau

**Mae gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau eglur, sy'n cael ei ddefnyddio'n weithredol ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i fynd i'r afael â phocedi o ymddygiad gwael ar lefel weithrediadol.**

Mae gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau eglur. Mae'n ymddangos bod y fframwaith wedi'i wreiddio'n dda ar draws y sefydliad, a gwelsom dystiolaeth o'r gwerthoedd a'r ymddygiadau sy'n cael eu defnyddio'n weithredol i lunio rolau swyddi, a goleuo prosesau recriwtio, trefniadau sefydlu, a rhaglenni datblygu arweinwyr. Dywedodd y staff y siaradom ni gyda nhw yn ystod ein gwaith diweddar wrthym fod diwylliant y Bwrdd Iechyd yn llawer gwell. Er iddynt ddweud wrthym bod uwch arweinwyr yn fwy gweladwy ac yn haws mynd atynt, mae canlyniadau'r arolwg staff a gynhaliwyd gennym yn awgrymu nad yw cyfathrebu rhwng uwch reolwyr a staff mor effeithiol ag y gallai fod. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd am enghreifftiau o ymddygiad gwael mewn rhai timau gweithrediadol sydd heb gael sylw, yn enwedig o ran bwlio ac aflonyddu. Atgyfnerthwyd hyn yng nghanlyniadau'r arolwg staff a gynhaliwyd gennym. Dywedodd tua thraean o'r ymatebwyr eu bod hwy'n bersonol wedi profi bwlio, aflonyddu neu gam-drin yn y gwaith gan reolwr neu gydweithiwr; ac roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn teimlo nad yw'r sefydliad yn cymryd camau effeithiol os yw staff yn profi bwlio, aflonyddu neu gam-drin gan aelodau eraill o staff. Mae angen rhagor o waith hefyd i integreiddio Ysbyty Tywysoges Cymru yn llawn ar ôl iddo gael ei drosglwyddo yn 2019 i'r Bwrdd Iechyd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (a elwir bellach yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe). Rydym yn teimlo'n weddol sicr y dylai model gweithredu newydd y Grwpiau Gofal sicrhau bod yr ysbyty'n cael ei integreiddio'n llawn i drefniadau gweithredol y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r materion hyn, ac mae wedi ymrwymo i wella diwylliant y sefydliad yn barhaus.

### Statws

Wedi'i roi ar waith



**Argymhelliad 14** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull cryfach o ran dysgu sefydliadol sy'n ystyried yr holl gyfleoedd a gyflwynir trwy bryderon, archwilio clinigol, adborth gan gleifion a staff, adolygiadau allanol a dysgu o waith a wnaed yn Ysbyty Tywysoges Cymru.

**Canfyddiadau** **Mae diwylliant dysgu gwell o fewn y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae angen rhagor o welliannau, yn enwedig mewn perthynas â chwblhau a chyflwyno Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau'n fwy amserol.**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o ymdrin â dysgu sefydliadol, gyda threfniadau ffurfiol bellach ar waith i roi cymorth i adnabod rhannu gwersi a ffyrdd o wella. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys y Fframwaith Gwrando a Dysgu, yr Ystorfa Ddysgu a Digwyddiadau Gwrando a Dysgu. Er bod y datblygiadau hyn yn gadarnhaol, canfuom y gallai'r Bwrdd Iechyd hybu mwy o ymgysylltiad clinigol â'r Digwyddiadau Gwrando a Dysgu. Mae swyddogaeth wella'r Bwrdd Iechyd - iCTM - hefyd yn effeithiol ar gyfer hwyluso dysgu a gwella ar draws y sefydliad. Yn ystod ein gwaith diweddar, canfuom enghreifftiau da o wersi'n cael eu cyflwyno a'u rhoi ar waith yn ymarferol, fel yr hydls "diogel i ddechrau". Gwelsom hefyd beth tystiolaeth gynnar o'r strwythurau a'r grwpiau newydd a sefydlwyd o dan y model gweithredu newydd yn creu gwell cyfleoedd ar gyfer rhannu gwersi a ffyrdd o wella ar lefel weithrediadol. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod dysgu a gwella'n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Grwpiau Gofal a grwpiau gweithrediadol newydd, fel y Bwrdd Rheoli Gweithrediadol a'r Bwrdd Gwella Gofal. Mae canlyniadau'r arolwg staff a gynhaliwyd gennym hefyd yn dangos gwelliannau yn y maes hwn. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod staff yn cael eu hannog i roi gwybod am wallau, digwyddiadau trwch blewyn neu ddigwyddiadau gwirioneddol. Ar ben hynny, roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod gwersi o wallau, digwyddiadau trwch blewyn, a digwyddiadau gwirioneddol yn cael eu rhannu gyda staff. Er bod diwylliant dysgu gwell ar draws y sefydliad, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth bryderon sylweddol. Cafodd y Bwrdd Iechyd gosb o £25,000 gan Gronfa Risg Cymru yn ddiweddar oherwydd oedi cyn cwblhau'r Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau gorfodol (LFRs). Dylid cynhyrchu Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau o fewn 12 mis ar ôl ymchwilio i ddigwyddiad y dylid rhoi gwybod amdano'n genedlaethol, neu ymchwiliad i hawliad clinigol neu i achos o wneud iawn am gamweddau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â phob Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau hanesyddol erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau perchnogaeth glinigol gadarn ar y cyd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad a sicrhau bod y gwersi'n cael eu cofnodi a'u rhannu'n briodol. Ar ben hynny, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd roi prosesau gwell ar waith i sicrhau ei fod yn cwblhau ac yn cyflwyno Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau'n fwy prydlon y dyfodol.

**Statws**

Wedi'i roi ar waith yn rhannol



# Atodiad 1 – Methodoleg yr adolygiad

Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn wedi'u nodi yn **Arddangosyn 2**. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r wybodaeth a ddeilliodd o'r dulliau isod.

## Arddangosyn 2 – Dulliau'r adolygiad

Dull adolygu	Disgrifiad
Hunanasesiad	Fe ofynnem ni i'r Bwrdd Iechyd hunanasesu ei gynnydd yn erbyn ein hargymhellion yn 2019, ac fe wnaethom adolygu'r hunanasesiad hwnnw cyn gwneud gwaith maes.
Dogfennau	Rydym wedi adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"><li>Cylchoedd gorchwyl, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a Phwyllgorau.</li><li>Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, y Fframwaith Ansawdd a chylchoedd gorchwyl Ansawdd a Llywodraethu lleol;</li><li>Agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd Rheoli Gweithrediadol a'r Bwrdd Gwella Gofal</li><li>Cynlluniau Archwilio Clinigol a diweddariadau ar eu cyflawni</li><li>Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y CTCI.</li><li>Y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Ansawdd a dogfennau sy'n ymwneud â'r fframweithiau a'r modelau Ansawdd a Llywodraethu.</li><li>Dogfennau allweddol sy'n ymwneud ag ymgynghori ynghylch y model gweithredu newydd, ei ddylunio a'i roi ar waith</li><li>Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a chofrestrau risgiau gweithrediadol o fewn gwasanaethau llawfeddygol.</li><li>Polisiau a gweithdrefnau perthnasol.</li><li>Adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol, a chyrrff allanol perthnasol eraill.</li></ul>

<b>Dull adolygu</b>	<b>Disgrifiad</b>
<b>Arsylwadau</b>	<p>Yn ogystal â phresenoldeb rheolaidd yn y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac arsylwi ar fusnes rheolaidd yn y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, tynnodd yr adolygiad dilydol yn benodol ar arsylwadau yn y cyfarfodydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Y Bwrdd (30/03/2023)</li><li>• Y Pwyllgor Archwilio a Risg (13/02/2023 a 19/05/2023)</li><li>• Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (16/03/2023)</li><li>• Y Bwrdd Rheoli Gweithredol (22/03/2023)</li><li>• Y Bwrdd Gwella Gofal (05/04/2023)</li><li>• Cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Phrofiad yn y Grŵp Gofal Wedi'i Gynllunio (23/03/2023), y Grŵp Gofal Plant a Theuluoedd (23/03/2023), a'r Grŵp Gofal Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (12/4/2023)</li></ul>
<b>Arolwg Staff</b>	<p>Fe wnaethom ailadrodd yr arolwg staff (wedi'i gyfyngu i dimau o fewn gwasanaethau llawfeddygol) o'n hadolygiad gwreiddiol yn 2019, a'n hadolygiad dilydol yn 2021.</p>

**Dull adolygu****Disgrifiad****Cyfweliadau**

Fe wnaethom gyfsweld â'r canlynol:

- Cadeirydd y Bwrdd
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg
- Y Prif Weithredwr
- Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
- Y Pennaeth Staff
- Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
- Y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Pobl
- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion
- Y Prif Swyddog Gweithredu
- Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd (Arweinydd Strategaeth Ansawdd y Bwrdd Iechyd)
- Y Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Acíwt
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio - Ansawdd, Diogelwch a Diogelu (Arweinydd Ansawdd Nyrsio)
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio - Profiad Cleifion
- Y Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer Materion Cyfreithiol
- Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Pryderon a Hawliadau
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
- Grŵp Gofal wedi'i Gynllunio – Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Grŵp
- Grŵp Gofal wedi'i Gynllunio – Cyfarwyddwr Meddygol
- Grŵp Gofal wedi'i Gynllunio – Cyfarwyddwr Nyrsio
- Arweinydd Cleifion sy'n Dirywio ar gyfer BIPCTM

**Grwpiau Ffocws**

Fe gynhaliom ni grwpiau ffocws gyda'r canlynol:

- Arweinwyr Arbenigedd Llawfeddygol - Gofal wedi'i Gynllunio (Ysbyty Brenhinol Morgannwg)
- Arweinwyr Arbenigedd Llawfeddygol - Gofal wedi'i Gynllunio (Ysbyty'r Tywysog Siarl)
- Grŵp y Gwasanaeth Clinigol Llawfeddygol - Arweinwyr Safle Acíwt (Ysbyty Brenhinol Morgannwg)
- Grŵp y Gwasanaeth Clinigol Llawfeddygol - Arweinwyr Safle Acíwt (Ysbyty Tywysoges Cymru)
- Grŵp y Gwasanaeth Clinigol Llawfeddygol - Arweinwyr Safle Acíwt (Ysbyty Brenhinol y Tywysog Siarl)



Archwilio Cymru  
1 Cwr y Ddinas  
Stryd Tyndall  
Caerdydd  
CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Rydym yn croesawu galwadau  
ffônyn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: [gwybodaeth@  
archwilio.cymru](mailto:gwybodaeth@archwilio.cymru)

[www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8163

Rydym yn croesawu galwadau  
ffônyn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)

[www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)